

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 06 Mai 2015

STATWS: CYDYMFFURFIO

CATEGORI: LLYTHYR GWEITHIWR IECHYD PROFFESIYNOL

Teitl: CANLLAWIAU WEDI’U DIWEDDARU GAN YR AWDURDOD MEINWEOEDD DYNOL AR WAREDU FFETYSAU

Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad

N/A

I’w weithredu gan:

Byrddau Iechyd a Ymddiriedolaethau

Angen gweithredu erbyn:

Ar unwaith

Anfonwr:

Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol

Enw(au) Cyswllt AIGC Llywodraeth Cymru:

Nathan Morgan, Polisi Iechyd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays 2, CF10 3NQ; 02920 823881

Dogfennau amgaeedig: Dim

Dr Ruth Hussey OBE
Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru
Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Bob Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru

06 Mai 2015

Annwyl Gyfarwyddwyr Meddygol

**CANLLAWIAU WEDI’U DIWEDDARU GAN YR AWDURDOD
MEINWEOEDD DYNOL AR WAREDU FFETYSAU**

Yn fy e-bost atoch dyddiedig 25 Mawrth 2014 ynghylch gwaredu gweddillion ffetysau, gofynnais ichi gymryd camau i adolygu’ch polisi a’ch arferion a mabwysiadu claddu a chorfflosgi fel dulliau gwaredu priodol. Gofynnais hefyd ichi roi sicrwydd imi fod arferion wedi cael eu hadolygu a bod camau priodol wedi’u cymryd lle bo angen; diolch ichi am wneud hynny.

Yn ychwanegol at hyn, ar 25 Mawrth 2015, cyhoeddodd yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ganllawiau diwygiedig ar waredu gweddillion beichiogrwydd yn sgil colli neu derfynu beichiogrwydd. Mae’r canllawiau i’w gweld yn:

https://www.hta.gov.uk/sites/default/files/Guidance_on_the_disposal_of_fetal_remains.pdf

Rwyf yn gofyn ichi fabwysiadu’r canllawiau hyn yn eich byrddau iechyd a’ch ymddiriedolaethau.

Yn gywir

A handwritten signature in cursive script that reads "Ruth Hussey".

DR RUTH HUSSEY OBE